# Datganiad ar y Cyd gan yr Undebau Llafur ar ddyfodol y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru

Mae gwasanaethau prawf a gweinyddiaeth cyfiawnder ieuenctid yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau aildroseddu ac amddiffyn cymunedau rhag niwed. Fodd bynnag, mae darpariaeth a llywodraethiant y gwasanaeth prawf yn y Deyrnas Unedig bellach mewn argyfwng. Yn sgil amryw o ddiwygiadau – sydd wedi methu i wahanol raddau, mae'r gwasanaeth prawf yn y DU wedi'i wahanu oddi wrth y gwasanaethau hanfodol y mae'n croestorri â nhw. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau gwaeth o ran adsefydlu, mwy o debygolrwydd o aildroseddu, ac mae'n fethiant i'r cyhoedd.

Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol (bellach y Senedd) ym 1999, mae'r pwerau a ddaeth yn sgil ddatganoli wedi cynyddu'n sylweddol. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu; fodd bynnag, hyd yma, nid yw wedi ymestyn i gyfiawnder, yn fwy penodol, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid.

Yn lle hynny, mae'r dull paradocsaidd o ganoli'r gwasanaeth prawf – trwy greu'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (HMPPS), a weinyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder – ond wedi cynyddu rhaniadau ar draul gweithio ar y cyd â gwasanaethau croestoriadol. O ganlyniad i hyn, collodd y gwasanaethau prawf eu hunaniaeth fel asiantaeth ar wahân i'r gwasanaeth carchardai.

Yn ogystal â chost gymdeithasol llunio polisi o'r fath, mae'r effaith ar staff wedi bod yn sylweddol a pharhaus. Mae diffyg cyfeiriad strategol cyson, cynnydd yn y llwyth achosion, a disbyddu arweinyddiaeth leol sefydliadol ar ôl preifateiddio ac ailwladoli'r gwasanaeth prawf yn ddiweddarach, wedi achosi niwed i'w enw da, ynghyd â diffyg atebolrwydd democrataidd. Mae disgwyl i'r gweithlu ddatrys neu bontio her o'r fath y tu hwnt i reswm a rhesymeg yn absenoldeb newid systemig a chyfansoddiadol.

Nid oes unrhyw amheuaeth nad oes angen newid, ac mae rhanddeiliaid ac eiriolwyr dylanwadol o blaid hyn. Roedd adroddiad "*Justice in Wales for the People of Wales*" (Yr Arglwydd Thomas, 2019) ac "*A New Britain: Renewing our Democracy and Rebuilding our Economy*," (Brown, 2022) ill dau yn argymell datganoli pŵer o San Steffan fel y cam cyntaf i ailadeiladu'r gwasanaeth prawf a sefydlu cysylltiadau hanfodol â gofal cymdeithasol, tai, iechyd, a gwasanaethau datganoledig eraill.

Rydym yn nodi ymrwymiad llywodraeth Cymru i geisio datganoli cyfiawnder fel rhan o'i rhaglen lywodraethu 2021-26 a'u hamcan i gyflawni hyn yn ei gyfanrwydd, ar yr amod bod rhaid gwneud hynny gam ar y tro.

Fel undebau llafur, a sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithlu, ein cyfrifoldeb ni yw ceisio datrysiadau sy'n hyrwyddo a gwella'r gwasanaethau er budd ein haelodau.

Mae'r datganiad hwn, felly, yn ddatganiad o gefnogaeth i ddatganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid o San Steffan i Gymru. Mae'n cadarnhau'r angen i unrhyw drafodaethau o'r fath sy'n ymwneud â threfniadaeth gwasanaethau gael eu cynnal mewn partneriaeth â'r undebau llafur a chymdeithasau cydnabyddedig, â'r nod cyffredin o adsefydlu drwy addysg, cyflogaeth, a lleihau digartrefedd, a hynny gyda darparwyr gwasanaethau lleol, sy'n atebol yn ddemocrataidd.

GMB WALES & SOUTH WEST

Gwasanaeth Prawf | Llys Teuluoedd napo

pcs Cymru Wales

ucu University and College Union Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

UNSAIN Cymru Wales